OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2006 Rhif 3347 (Cy.307)

# ARDRETHU A PHRISIO, CYMRU

## Rheoliadau Cyfraniadau Ardrethu Annomestig (Cymru) (Diwygio) 2006

| | |
|---|---|
| *Wedi'u gwneud - -* | *12 Rhagfyr 2006* |
| *Yn dod i rym - -* | *31 Rhagfyr 2006* |

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adrannau 60, 140(4) a 143(1) a (2) o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988 (**1**) a pharagraffau 4 a 6 o Atodlen 8 iddi ac a freiniwyd bellach yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru:

### Enwi, cymhwyso a chychwyn

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Cyfraniadau Ardrethu Annomestig (Cymru) (Diwygio) 2006 a deuant i rym ar 31 Rhagfyr 2006.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

### Diwygio Rheoliadau Cyfraniadau Ardrethu Annomestig (Cymru) 1992

**2.**—(1) Diwygir Rheoliadau Cyfraniadau Ardrethu Annomestig (Cymru) 1992(**2**) fel a ganlyn parthed blynyddoedd ariannol sy'n dechrau ar neu ar ôl 1 Ebrill 2007.

(2) Ym mharagraff 3(1)(b) o atodlen 1, yn lle'r geiriau "other than" hyd at ddiwedd y paragraff hwnnw, rhodder "in relation to which section 47(2)(b), (ba) or (c) applies were taken into account".

(3) Ym mharagraff 2(12) o atodlen 2, yn lle "1.004" rhodder "1.001".

(4) Yn lle atodlen 4 rhodder yr atodlen a osodir yn yr Atodlen i'r Rheoliadau hyn.

(**1**) 1988 p. 41. Cafodd y pwerau hyn eu datganoli, o ran Cymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672), *gweler* y cyfeiriad at Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1999 yn Atodlen 1.

(**2**) OS 1992/3238, a ddiwygiwyd gan O.S. 1993/1505, 1993/3077, 1994/547, 1994/1742, 1994/3125, 1995/3235, 1996/619, 1996/3018, 1997/3003, 1998/2962, 1999/3439 (Cy.47), 2000/3382 (Cy.220), 2001/3910 (Cy.322), 2002/3054 (Cy.289), 2003/3211 (Cy.304), 2004/3232 (Cy.280) a 2005/3345 (Cy.259).

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**3**).

*D. Elis-Thomas*

12 Rhagfyr 2006

Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

(**3**) 1998 p.38.

YR ATODLEN Rheoliad 2

"SCHEDULE 4

ADULT POPULATION FIGURES

| **Billing authority area** | **Prescribed figure** |
|---|---|
| Blaenau Gwent | 52,900 |
| Bridgend | 101,600 |
| Caerphilly | 130,300 |
| Carmarthenshire | 140,000 |
| Cardiff | 251,200 |
| Ceredigion | 64,100 |
| Conwy | 88,800 |
| Denbighshire | 75,600 |
| Flintshire | 166,900 |
| Gwynedd | 93,100 |
| Isle of Anglesey | 54,300 |
| Merthyr Tydfil | 42,100 |
| Monmouthshire | 68,300 |
| Neath Port Talbot | 106,200 |
| Newport | 106,100 |
| Pembrokeshire | 91,500 |
| Powys | 103,800 |
| Rhondda Cynon Taf | 179,100 |
| Swansea | 179,800 |
| Torfaen | 69,600 |
| Vale of Glamorgan (The) | 94,600 |
| Wrexham | 102,300" |

**EXPLANATORY NOTE**

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau.)*

Mae'r Rheoliadau hyn, sy'n gymwys i Gymru, yn diwygio'r Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Cymru) 1992 ("Rheoliadau 1992").

O dan Ran II o Atodlen 8 i Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol ("Deddf 1988") mae'n ofynnol i awdurdodau bilio (yng Nghymru, cynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol) dalu symiau (a elwir yn gyfraniadau ardrethu annomestig) i Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Mae Rheoliadau 1992 yn cynnwys rheolau ar gyfer cyfrifo'r cyfraniadau hynny ar gyfer awdurdodau bilio Cymru.

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau 1992—

— trwy newid geiriad paragraff 3(1) o Atodlen 1 (Rheolau ar gyfer Cyfrifo Cyfraniadau Ardrethu Annomestig) bod y didyniad o 90% y cyfeirir ato yn y paragraff hwnnw yn cyfeirio yn unig at ryddhad ardrethu disgresiynol a roddir gan awdurdodau bilio mewn perthynas â hereditamentau y mae adran 47(2)(b), (ba) neu (c) yn gymwys iddynt. O ganlyniad ni fydd yna ddidyniad mewn perthynas â rhyddhad disgresiynol ardrethi a roddir gan yr awdurdod bilio i drethdalwyr sy'n meddiannu hereditamentau y mae adran 43(4B) o Ddeddf 1988 yn gymwys iddynt (hereditamentau sy'n cael rhyddhad gorfodol ardrethi busnesau bychain);

— trwy roi lluosydd newydd ym mharagraff 2(12) o Atodlen 2 yn lle'r un presennol (Rhagdybiaethau parthed swm gros); a

— trwy roi Atodlen 4 newydd yn lle'r un bresennol (Ffigyrau Poblogaeth Oedolion).